

Cyfraniad i fywgraffiad William Jones, Moelfre, Aberdaron, sef dyddiadurwr y mae ei gofnodion am y cyfnod 1867-96 (6 Rhag 2010) ar gael yn DYDDIADUR ar y wefan hon

gan Brenda Jones, Llanwnda

Seiliwyd y cyfraniad hwn ar gyfrifon 1851,61,71,81 a 91.

Gwelwn fod William Jones Davies wedi ei eni yn 1830 yn fab i John ac Elizabeth Davies. Ar ôl marwolaeth ei rieni (rhwng 1881 a 1891) cofrestrodd ei hun yng nghyfrifiad 1891 fel William Jones, gan ollwng cyfenw ei dad. Hanai John Davies o Aberdaron ac Elizabeth o Lanfihangel.

1851

Yn ôl cyfrifiad 1851 gwelwn enw "Elizabeth Davies, Wife, 51oed" yn gyntaf ar y dudalen - tybiaf fod enw John Davies, ei gwr ar y dudalen flaenorol gan nad yw enw'r fferm "Moelfra" yn ymddangos yn y golofn briodol.

Roedd William yn 21 oed ac yn gweithio ar y fferm; Evan Williams oedd yno yn was 16oed a Mary Jeremiah yn forwyn 24 oed.

Roedd Elizabeth Griffith, 84 oed yn "Lodger" yno; tybiaf mai Mam Elizabeth Davies ydoedd oherwydd ei hoedran a'i henw - byddai enwau'r rhieni yn cael eu cario ymlaen i'r plant.

Yr olaf ar y rhestr yw Catherine Jones, "visitor" 25oed. Tybiaf mai chwaer William ydoedd, bu'n sôn llawer amdani yn ei ddyddiaduron - roedd yn byw yn y Deheubarth.

Gwelwn enwau'r tai cyfagos ar y dudalen; trigai Ellis Parry, "Mariner" a'i deulu yn Nhynant a Margaret Roberts, "pauper" dibriod gyda merch fach 9 mis oed yng Nglanrafon

1861

Yng Nghyfrifiad 1861 gwelwn fod Moelfra yn fferm 40 erw a bod John ac Elizabeth Davies yn cyflogi dau o weision – William Jones, y mab oedd y naill a William Jones (33 oed) oedd y llall. Mary Parry oedd y forwyn.

"Weaver" oedd Hugh Jones, Penybryn a chanddo ef, ei frawd a'i chwaer 10 erw i ffermio.

Roedd gan Evan Prichard, Gilfach a'i deulu 35 o erwau ac un gwas; Thomas Williams, Caedu yn "joiner" ac yn ffermio 3 erw a Thomas Jones Fachwen yn ffermio 30 erw.

1871

Roedd y tri aelod o'r teulu yno o hyd ond William Williams, 18 oed o Fryncroes oedd y gwas ac Ellen Williams, 17oed o Aberdaron oedd y forwyn.

Erbyn hyn, gwelwn fod Hugh Jones Penybryn wedi mynd a bod ei frawd, John wedi cymeryd drosodd i ffermio 12 erw.

1881

Erbyn 1881 roedd John Davies yn 85 oed, Elizabeth yn 80 a William yn 51. Ellen Thomas, 18 oed oedd y forwyn ond nid oedd gwas yno ar noson y cyfrifiad.

1891

William Jones yw'r perchennog erbyn hyn 1891, gydag Ellen Griffith, 17 oed ac Elizabeth Moore 13 oed yn forwynion iddo.

Roedd gan William chwaer yn byw yn Llwynhendy ger Llanelli gyda merch o'r enw Catherine a chanddi hithau ferch fach o'r enw Margaret . Atynt yr âi William ar ei wyliau am wythnos, ambell fis Awst, wedi'r cynhaeaf, a deuant hwythau am wyliau i Foelfra yn eu tro; âi William cyn belled â Phwllheli gyda'r car post, ac aros yno dros nos. Ni nodir beth oedd y cludiant ymlaen i'r Deheubarth. Yn 1896, torrodd y siwrne adref wrth aros noson yn Builth Wells.

ON Mae modd gweld Cyfrifiad 1901 ar wefan Ancestry.co.uk; byddai modd gweld os ydoedd yn dal i fyw yn Moelfra. Cyn bo hir bydd Cyfrifiad 1911 i'w gweld.